

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
1 Chwefror 2023

Rhan 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

1.2 Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r cymorth presennol i fyfirwyr er mwyn:

- cynyddu maint y cymorth i israddedigion ac ôl-raddedigion, yn unol â pholisi sefydledig; gan gynnwys cynnydd o 9.4% yn y cymorth i israddedigion;
- cynyddu uchafswm y rhandaliad benthyciad ar radd doethur sy'n daladwy yn flynyddol;
- cynorthwyo i gwrdd ag ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, galluogi mwy o fyfirwyr rhan-amser i wneud cais am Grantiau ar gyfer Dibynyddion, a chynyddu yr incwm a ddiystyrir wrth fynd ati i gyfrifo hawl ariannol;
- gwneud aelodau teuluol rhai personau sydd wedi ymwreiddio yn y DU yn gymwys i gael rhai elfennau o gefnogaeth;
- i wneud rhai personau o Diriogaethau Tramor Prydeinig penodedig a Thiriogaethau Tramor yr UE yn gymwys i gael rhai elfennau o gefnogaeth; a
- gwneud diwygiadau technegol i Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 drwy hepgor darpariaethau diangen.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau 2023 o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983; adrannau 22(1)(a), 22(2)(a), (b) ac (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998'); ac adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

- 3.2 Mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny, neu'n gwneud hynny'n ofynnol. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.
- 3.3 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 yn effeithiol o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(c) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy'n gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
- 3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- 3.6 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.
- 3.7 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a myfyrwyr penodol eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU.
- 4.2 Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio'r rheoliadau cymorth presennol i fyfyrwyr fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.3 – 4.24.

Cynnydd blynyddol mewn cymorth

Cymorth cynhaliaeth

- 4.3 I fyfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2018, i gynyddu swm y cymorth cynhaliaeth i adlewyrchu'r cynnydd a ragwelir yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer 2023. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr llawn a rhan-amser, sef y mwyafrif o'r myfyrwyr israddedig presennol.
- 4.4 Bydd swm y cymorth cynhaliaeth yn codi 9.4% rhwng 2022/23 a 2023/24. Cynyddir elfen benthyciad y cymorth yn unol â hynny; mae'r elfen grant yn sefydlog.
- 4.5 Ar gyfer myfyrwyr llawn amser a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2012 a chyn 1 Awst 2018, i gynyddu swm y benthyciad cynhaliaeth gan fesur o'r Mynegai Prisiau Manwerthu ac Eithrio Llog ar Forgeisi (RPIX).
- 4.6 Bydd swm y benthyciad cynhaliaeth yn cynyddu 1.8% rhwng 2022/23 a 2023/24 yn unol â'r amcangyfrifon o chwyddiant a ragwelir fel y'i mesurir gan RPIX yn y flwyddyn hyd at Chwarter 1 2024 ac a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2022. Mae'r cymorth yn gymysgedd o grantiau a benthyciadau ac yn ddibynnol ar incwm yr aelwyd.
- 4.7 Ar gyfer myfyrwyr rhan amser a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2014 a chyn 1 Awst 2018, nid oes cynnydd. Mae grant cwrs sefydlog ag uchafswm o £1,155 yn daladwy, sy'n gostwng gydag incwm. Does dim benthyciad ar gael.

Grantiau cymorth eraill

- 4.8 I bob myfyriwr cymwys, cynyddu symiau'r Grantiau ar gyfer Dibynyddion, gan gynnwys y Grant Gofal Plant, o RPIX. Bydd y grantiau hyn yn cynyddu 1.8% rhwng 2022/23 a 2023/24.
- 4.9 I bob myfyriwr cymwys, cynyddu swm y Grant Myfyrwyr Anabl o RPIX. Bydd y grant hwn yn cynyddu 1.8% rhwng 2022/23 a 2023/24..

Cymorth ffioedd dysgu

- 4.10 Ar gyfer myfyrwyr llawn amser a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2012 a chyn 1 Awst 2018, lleihau swm y grant ffioedd a chynyddu swm y benthyciad ffioedd o RPIX. Nid yw'r gefnogaeth gyffredinol o ran ffioedd yn newid, ond bydd swm y grant yn gostwng a'r benthyciad yn cynyddu 1.8%.

Graddedigion

- 4.11 Ar gyfer myfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2023, cynyddu swm y cymorth o RPIX. Bydd cyfanswm y cymorth yn codi 1.8%, drwy gynyddu maint y benthyciad. Does dim cynnydd i'r grant. Fesul cwrs y ceir

y cymorth yn hytrach na phob blwyddyn academiaidd ac felly i fyfyrwyr newydd yn unig y mae'r cynnydd yn berthnasol.

- 4.12 Ar gyfer myfyrwyr doethurol sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2023, cynyddu swm y cymorth o RPIX. Bydd y benthyciad cynhaliath yn codi 1.8%.

Benthyciadau cymorth i fyfyrwyr doethurol ôl-raddedig

- 4.13 Mae'r polisi presennol yn ei gwneud yn bosibl i fyfyrwyr doethurol gael uchafswm rhandaliad blynyddol o £10,609 yn unol â Rheoliad 14 o Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethur Ôl-raddedig) (Cymru) 2018. Nid yw'r swm hwn wedi'i gynyddu ers cyflwyno benthyciadau at raddau doethur ôl-raddedig ym mlwyddyn academiaidd 2018/19 er bod y benthyciad ei hun wedi cynyddu. Felly cynigir cynyddu uchafswm y benthyciad sy'n daladwy mewn blwyddyn academiaidd i adlewyrchu 50 y cant o gyfanswm y benthyciad sydd ar gael.

Grantiau ar gyfer Dibynyddion

- 4.14 Mae Grantiau ar gyfer Dibynyddion yn darparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr israddedig sydd â dibynyddion ac yn cynnwys tri grant: y Grant Gofal Plant, y Lwfans Dysgu Rhieni, a'r Grant Oedolion Dibynnol. Mae'r Grant Gofal Plant yn talu (ar gyfer myfyriwr amser llawn) hyd at 85% o gostau gofal plant hyd at £187 yr wythnos ar gyfer un plentyn dibynnol neu hyd at £321 yr wythnos am ddau neu ragor o blant dibynnol. Mae'r Lwfans Dysgu Rhieni yn lwfans cyfradd safonol o £1,896 (amser llawn) fesul blwyddyn academiaidd i unrhyw fyfyrwr sydd ag un neu fwy o blant dibynnol. Grant sy'n cael ei dalu i fyfyrwyr sydd â phartner neu oedolyn yn ddibynnol arnynt yw'r Grant Oedolion Dibynnol.
- 4.15 Sefydlwyd nod yn y Rhaglen Lywodraethu i ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion byd gwaith.

Ddiystyru incwm

- 4.16 Mae cynyddu lefel yr incwm sy'n cael ei ddiystyru yn cael yr effaith o godi swm y Grantiau ar gyfer Dibynyddion a allai fod yn daladwy i fyfyrwyr cymwys, drwy leihau faint o incwm sy'n cael ei asesu ar gyfer ei wrthbwyso yn erbyn grantiau. Mae Rheoliadau 2023 yn darparu ar gyfer cynnydd yn lefel yr incwm a ddiystyriar ar gyfer pob myfyriwr cymwys o 1.8 y cant ar gyfer 2023/24 (h.y. yn unol â'r rhagamcaniad o chwyddiant RPIX).

Myfyrwyr rhan-amser

- 4.17 Rhaid i fyfyrwyr rhan-amser fod yn astudio ar ddwyster o 50 y cant o gwrs cyfwerth ag amser llawn i fod yn gymwys ar gyfer Grantiau ar gyfer Dibynyddion. Mae'r swm y mae ganddynt hawl iddo yn cael ei benderfynu pro rata ar sail y dwyster hwn, fel a ganlyn:
- hawl i 50 y cant o'r grant cyfwerth ag amser llawn lle mae dwyster astudio'r cwrs ar gyfer y flwyddyn academiaidd o leiaf 50 y cant ond yn llai na 60 y cant o gwrs cyfwerth ag amser llawn;

- 60 y cant lle mae dwyster astudio'r cwrs o leiaf 60 y cant ond yn llai na 75 y cant; a
- 75 y cant lle mae dwyster astudio'r cwrs o leiaf 75 y cant neu fwy.

4.18 Mae myfyrwyr rhan-amser yn gymwys i wneud cais am grant cynhaliath, benthyciad cynhaliath a Grantiau Myfyrwyr Anabl wrth astudio ar ddwyster o 25 y cant neu fwy. Y Grant ar gyfer Dibynyddion yw'r unig grant nad ydynt yn gymwys ar ei gyfer pan fônt yn astudio ar ddwyster o lai na 50 y cant. Gwneir diwygiadau gan Reoliadau 2023 sy'n galluogi myfyrwyr rhan-amser cymwys i fod â hawl i gael Grantiau ar gyfer Dibynyddion wrth astudio cwrs ar ddwyster o 25 y cant neu fwy. Bydd hyn yn gwneud mwy o rieni yn gymwys i gael cymorth gofal plant ac yn helpu i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu.

4.19 Bydd penderfyniadau ar sail pro rata hefyd yn berthnasol i'r canlynol:

- hawl i gael 25 y cant o'r grant cyfwerth ag amser llawn lle mae dwyster astudio'r cwrs ar gyfer y flwyddyn academiaidd o leiaf 25 y cant ond yn llai na 30 y cant o gwrs cyfwerth ag amser llawn;
- 30 y cant lle mae dwyster astudio'r cwrs o leiaf 30 y cant ond yn llai na 40 y cant; a
- 40 y cant lle mae dwyster astudio'r cwrs o leiaf 40 y cant ond yn llai na 50 y cant.

Aelodau teuluoedd pobl eraill sydd wedi ymsefydlu yn y DU

4.20 O ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE, diwygiwyd y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn 2021 fel y gallai aelodau teuluoedd dinasyddion y DU barhau i gael mynediad at gymorth myfyrwyr ac elwa ar statws ffioedd cartref ar yr un sail â phan roedd y DU yn aelod o'r UE. Mae diwygiad i'r rheoliadau bellach yn cael ei wneud i sicrhau cymharedd rhwng aelodau teuluoedd dinasyddion y DU a phobl eraill sydd wedi ymsefydlu yn y DU. Bydd myfyrwyr sy'n dechrau cwrs ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y cap ffioedd dysgu, benthyciadau ffioedd dysgu, a chefnogaeth i ôl-raddedigion.

Myfyrwyr o Dirioogaethau Tramor Prydeinig a Thirioogaethau Tramor yr UE

4.21 O ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE, diwygiwyd rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn 2021 fel y gallai dinasyddion y DU ac aelodau o'u teuluoedd sy'n preswyllo yn y Tirioogaethau Tramor Prydeinig (ac eithrio'r Ardaloedd Canolfannau Sofran) elwa ar statws ffioedd cartref fel y gallent pan oedd y DU yn aelod o'r UE.

4.22 Mae Rheoliadau 2023 yn gwneud darpariaeth ar gyfer personau sydd â statws preswlydd sefydlog yn y DU, a'r rhai hynny a gwmpesir gan y gwahanol Gytundebau Ymadael, sy'n dod o Dirioogaethau Tramor Prydeinig penodol i astudio yng Nghymru i fod yn gymwys i gael cymorth ffioedd dysgu israddedig a chymorth ôl-raddedig. Mae hyn yn sicrhau cymharedd rhwng dinasyddion y DU sy'n byw yn y tiriogaethau hyn a'r rhai sy'n preswyllo mewn mannau eraill.

4.23 Ymhellach, ymestynir hyn i gynnwys personau â hawliau gwarchoddedig sy'n dod o Dirioogaethau Tramor o'r UE penodedig i sicrhau cymharedd rhwng dinasyddion

yr UE a'r DU yn hyn o beth. Bydd hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dechrau cwrs yn y flwyddyn academaidd 2023/24.

Athrofa Brifysgol Ewropeaidd

4.24 Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 yn darparu bod myfyrwyr cymwys yn gallu gwneud cais am bedwar grant gwahanol. Ar gyfer pob grant, mae eithriad yn cael ei wneud fel nad yw myfyriwr cymwys yn gymwys ar gyfer y grant dan sylw pe bai nhw'n dod o fewn rhai categorïau cymhwysedd penodedig yn unig. Mae hyn yn golygu bod categorïau o fyfyrwyr sy'n gymwys o dan y rheoliadau ond nad ydynt, mewn gwirionedd, yn gallu bod yn gymwys i gael cymorth o dan unrhyw amgylchiadau. Cynigir diwygiad technegol i ddileu'r darpariaethau diangen.

5. Ymgynghori

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hynny ac ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad.

Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2023. Ystyriwyd opsiynau ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn erbyn y polisi presennol sy'n seilio gwerth cymorth cynhaliaeth i fyfyriwr sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 ar y Cyflog Byw Cenedlaethol ('CBC'). Er nad yw'r polisi'n targedu gwerth gwirioneddol y cymorth yn benodol, roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r lefel uchel o chwyddiant a brofwyd yn 2022. Mae disgwyl i chwyddiant liniaru rhywfaint yn ystod 2023 a 2024. Nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei *Economic and Fiscal Outlook* (t.15) ym mis Tachwedd 2022 '*on a calendar-year basis, CPI inflation falls back from 9.1 per cent in 2022 to 7.4 per cent in 2023.... Conditional on market expectations for Bank Rate and gas prices, inflation falls below zero for eight quarters from mid-2024*'.

Opsiynau

6.2 Fel y nodwyd, mae polisi ar gyfer cynyddu'r gwahanol gyfraddau o gymorth i fyfyrwyr wedi hen ennill ei blwyf. Mae gwerth y cymorth cynhaliaeth i fyfyrwr israddedig sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 yn cynyddu bob blwyddyn o gyfradd y cynnydd yn y CBC. Sefydlwyd y polisi hwn gan yr *Adolygiad o gyllido addysg uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr* yn 2018. Gan mai â'r CBC y mae'r cyswllt polisi, gall gwerth go iawn (ar ôl ei addasu ar gyfer chwyddiant) cymorth cynhaliaeth gynyddu neu leihau yn unol â hynny.

6.3 Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer cynyddu cymorth cynhaliaeth yn benodol ar gyfer myfyrwyr ôl-2018 ac roeddent yn cynnwys:

- a. Cynyddu cyfraddau cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-2018 i adlewyrchu'r cynnydd o 9.7% i'r CBC, sef y gyfradd a gyhoeddwyd adeg Datganiad yr Hydref. Sylwer mai 9.4% fydd y cynnydd i'r cyfraddau cymorth, er mwyn

darparu ar gyfer y goramcangyfrifo a ddigwyddodd o ran y CBC yn y cyfraddau cymorth ar gyfer 2022/23. Bydd hyn yn golygu bod cyfraddau cymorth yn adlewyrchu gwerth y CBC yn 2023-24 yn gywir.

- b. Cyflwyno cynnydd ar sail yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (yn hytrach na'r Cyflog Byw Cenedlaethol) gan mai hwn yw'r cyflog statudol sy'n berthnasol i bobl ifanc (18-22 oed). Mae'r cynnydd ar gyfer 2023/24 yr un fath (9.7%) ac felly diystyriwyd yr opsiwn hwn.
 - c. Cynyddu cyfraddau cynhaliath ar gyfer myfyrwyr ôl-2018 o 4.7%, sef y cynnydd a ragwelwyd yng nghyfradd y CBC ar adeg *Economic and Fiscal Outlook* y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2022. Mae ffigwr mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi'i ddefnyddio mewn blynyddoedd blaenorol ond mae unrhyw anghysondeb gyda chyfradd derfynol y CBC fel arfer yn cael ei unioni, naill ai drwy addasiad hwyr, neu drwy addasu'r gwerth ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
- 6.4 Bydd cynyddu cyfraddau cynhaliath er mwyn adlewyrchu'r cynnydd o 9.7% yn y CBC yn cynnal y cyswllt polisi sefydledig rhwng cyfraddau cymorth a'r CBC ac yn darparu cynnydd sylweddol i'r cymorth yn ystod cyfnod o bwysau eithriadol o ran costau byw. Dyma'r opsiwn a ddewiswyd.
- 6.5 Mae'r holl werthoedd eraill yn cael eu cynyddu gan fesur o chwyddiant prisiau a ragwelir, fel y'u mesurir gan y Mynegai Prisiau Manwerthu ac Eithrio Llog ar Forgeisi (RPIX). Oherwydd natur y broses ddeddfwriaethol, mae angen defnyddio rhagolwg o RPIX o fis Mawrth y flwyddyn cyn y flwyddyn pryd fo'r flwyddyn academaidd yn dechrau. Felly, ar gyfer gwerthoedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, defnyddir cyfradd o 1.8%, gan mai dyna oedd y rhagolwg ym mis Mawrth 2022.
- 6.6 Mae'r Rheoliadau'n cwmpasu ystod eang o newidiadau polisi yn ychwanegol at y cynnydd blynyddol i gefnogi gwerth. Cofnodir yr opsiynau isod.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

- 6.7 Os na wneir Rheoliadau 2023, y goblygiadau yw:
- bydd gwerth cymorth i fyfyrwyr yn gostwng, gan adael myfyrwyr i ysgwyddo holl gost y gostyngiad hwn ar adeg pan fo costau byw wedi cynyddu;
 - ni lwyddir i gyflawni amcan y Rhaglen Lywodraethu i ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion byd gwaith;
 - ni fydd unrhyw gymhared rhwng aelodau teuluoedd dinasyddion y DU a rhai pobl eraill sydd wedi ymsefydlu yn y DU;
 - ni fydd unrhyw gymhared rhwng dinasyddion y DU sy'n byw yn y Tiriogaethau Tramor Prydeinig a'r rhai sy'n preswyllo mewn mannau eraill ac ni fyddai unrhyw gymhared rhwng dinasyddion yr UE â hawliau gwarchoddedig sy'n preswyllo mewn Tiriogaethau Tramor o'r UE a dinasyddion y DU sy'n preswyllo mewn Tiriogaethau Tramor Prydeinig;

- byddai darpariaethau diangen yn Rheoliadau'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd o hyd.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

- 6.8 Mae gwneud y rheoliadau hyn yn sicrhau bod y canlyniadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi.

Costau a buddiannau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

- 6.9 Byddai gadael y rheoliadau presennol ar waith yn golygu na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr. Byddai myfyrwyr yn ysgwyddo holl gost unrhyw ostyngiad go iawn yng ngwerth y cymorth i fyfyrwyr y byddent yn ei gael.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

- 6.10 Drwy wneud Rheoliadau 2023, mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod system cymorth i fyfyrwyr Cymru yn cael ei hategu gan fframwaith cyfreithiol priodol, a bod polisiau'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd myfyrwyr yn elwa ar gynnydd yn eu cymorth cynhaliaeth sydd wedi'i gysylltu â gwerth y Cyflog Byw Cenedlaethol, a fydd yn cynyddu'n sylweddol yn y flwyddyn ariannol 2023-24. Drwy gynyddu lefel yr incwm a ddiystyrir a galluogi myfyrwyr rhan-amser i wneud cais am Grantiau ar gyfer Dibynyddion wrth astudio cyrsiau ar ddwyyster astudio o 25 y cant, bydd amcan y Rhaglen Lywodraethu yn cael ei chyflawni. Mae ymestyn y meini prawf ar gyfer cymhwysra i gael cymorth, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu, fel y'u cofnodwyd uchod, yn sicrhau bod manteision addysg uwch yn cael eu hymestyn yn briodol, a bod grwpiau'n cael eu trin yn gyfartal. Mae manteision addysg uwch i'r unigolyn, i'r economi ac i gymdeithas wedi'u hen sefydlu.
- 6.11 Amcangyfrifir bod y cynnydd yn y cymorth blynyddol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24 yn costio £80 miliwn yn ychwanegol.

Goblygiadau ariannol cynnydd ar gyfer 2023/24 (£m)			
	Dim cynnydd	Yn cynnwys cynnydd	Gwahaniaeth
Yn cyfateb i arian parod	30.1	31.7	1.6
Eitemau nad ydynt yn arian parod	471.7	534	62.2
Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau	105.8	121.9	16.2
Cyfanswm y gost			80.0

Nodiadau:

Mae costau ar gyfer dim cynnydd yn cyfrif am gynnydd yn nifer y myfyrwyr ond yn tybio nad oes cynnydd yn symiau'r benthyciadau a ddefnyddir ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23.

Yn cynnwys mathau o gymorth i fyfyrwyr sy'n cael eu cynyddu'n unol â chwyddiant; benthyciadau cynhaliath israddedig, elfen fenthyciad gradd Meistr ôl-raddedig a chymorth cynhaliath ar gyfer gradd ddoethur, grantiau ar gyfer dibynyddion a lwfans myfyrwyr anabl.

- 6.12 Amcangyfrifir bod y newidiadau i Grantiau ar gyfer Dibynyddion i gynyddu'r incwm a ddiystyrir a lleihau dwyster y gofynion astudio yn costio £652,000 yn ychwanegol yn y flwyddyn academiaidd 2023/24.

Goblygiadau ariannol newidiadau i Grantiau ar gyfer Dibynyddion ar gyfer 2023/24	
Cost y Grant ar gyfer 2023/24 heb newidiadau	£15,206,000
Amcangyfrif o'r gost ychwanegol am gynyddu faint o incwm a ddiystyrir	£274,000
Amcangyfrif o gost ychwanegol lleihau dwyster astudio	£378,000
Cyfanswm costau ychwanegol	£652,000

- 6.13 Bydd gan y gwelliant i wneud darpariaeth ar gyfer aelodau teuluoedd pobl eraill â statws preswlydd sefydlog yn y DU fân oblygiadau o ran cost ond gan fod y niferoedd yn debygol o fod yn isel iawn, ystyrir y bydd unrhyw gostau yn fach iawn.
- 6.14 Credir bod y gwelliant i wneud darpariaeth bod dinasyddion y DU sy'n preswyllo yn y Tiriogaethau Tramor Prydeinig a dinasyddion yr UE sy'n byw mewn Tiriogaethau Tramor o'r UE yn gymwys i gael cymorth ffioedd dysgu i israddedigion a chymorth ôl-raddedig yn cael mân oblygiadau o ran cost gan fod y niferoedd yn debygol o fod yn isel.

7. Asesiad o'r gystadleuaeth

- 7.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2023 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

8. Asesiad ar ôl gweithredu

- 8.1 Caiff y rheoliadau sy'n rheoli'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol Maent hefyd yn destun adolygiad manwl yn gyson gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi wrth iddynt roi'r rheoliadau ar waith yn ymarferol.